


Strategaeth Cynnwys y Gymuned 2021 - 2027



Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Ein nodau ac egwyddorion o ran cynnwys y gymuned	5
3.	Beth yw Cynnwys y Gymuned?	6
4.	Pam fod cymryd rhan yn bwysig?	7
5.	Pwy fyddwn ni'n ei gynnwys?	8
6.	Sut all pobl gymryd rhan?.....	9
7.	Ystyriaethau cydraddoldeb a hygyrchedd	10
8.	Diogelu Data.....	10
9.	Sut fyddwn ni'n rhoi adborth am y gwahaniaeth a wnaed?.....	10
10.	Sut i gysylltu gyda ni	11
11.	Atodiad 1 – Mathau o Gymunedau	12



Cyflwyniad

Nod y Strategaeth Cynnwys y Gymuned newydd hon yw cefnogi cymunedau cryf, gweithredol a chynhwysol a all ddylanwadu ar y sir lle maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld. Mae gwrandio ar, cynnwys a chyfathrebu ac ymgysylltu â'n cymunedau, ein dinasyddion, ein staff, ein haelodau etholedig a'n partneriaid lleol yn rhan ganolog o ddarparu ein gwasanaethau yn ddyddiol, ac yn ein helpu i gyflawni ein 8 canlyniad i ddinasyddion.

Nod y strategaeth hon yw datblygu ar arferion da a gwersi a ddysgwyd trwy Sgwrs y Sir, a lansiwyd yn 2016. Dechreuodd hyn ein sgwrs barhaus â chymunedau lleol. Trwy Sgwrs y Sir, dywedodd cymunedau yn Sir Conwy wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw a'u syniadau ar gyfer newid. Yn sgil cyfnodau clo Covid-19, bu'n rhaid cynnal trafodaethau ar-lein, ac er fod rhai wedi cael trafferth â hyn i ddechrau, mae cymunedau ar y cyfan wedi addasu i gyfathrebu ar-lein. Er na fydd y dull hwn yn cymryd lle cyfathrebu wyneb yn wyneb a bod perygl o eithrio rhai pobl yn ddigidol, rhagwelir y bydd hyn yn parhau i ryw raddau fel opsiwn (ymhlith nifer) ar gyfer rhannu syniadau cymunedol. Mae platfformau digidol hefyd wedi cynnig mynediad a chyfleoedd i bobl gymryd rhan na fyddai wedi gwneud hynny fel arfer. Mae'r strategaeth hon felly wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r newid mewn ymgysylltu digidol.

Yn ogystal â hynny, daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2021. Mae hon yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i annog y cyhoedd i gymryd rhan. Golyga hyn y bydd rhaid i ni annog pobl leol i gymryd rhan mewn Llywodraeth Leol, megis drwy gymryd mwy o ran yn y broses ddemocrataidd. Rhaid i ni ddangos bod gennym ni broses barhaus o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Gymuned, Busnesau, Undebau Llafur a Staff drwy gydol y flwyddyn, ac y gallwn ddarparu tystiolaeth o'r hyn rydym wedi'i wneud o ganlyniad i adborth.

Ymhellach, ym mis Mawrth 2021, cyflwynwyd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (dan ran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Golyga hyn bod rhaid i'n penderfyniadau ni ddarparu gwell canlyniadau i bobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. Mae angen i ni ddod i ddeall barn a gofynion yr unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau, yn enwedig yr unigolion sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n gamp cael yr union gydbwysedd, gan fod rhaid i ni hefyd reoli disgwyliadau ac osgoi ymgysylltu'n ormodol a allai arwain at ymddieithrio. Nod y strategaeth cynnwys y gymuned hon yw cefnogi'r dyletswyddau hyn.

Canlyniadau i Ddinasyddion

Mae ein 8 canlyniad i ddinasyddion yn adlewyrchu'r dyheadau hirdymor y mae'r Cyngor a'n cymunedau yn dymuno eu cyflawni. **Mae Pobl Conwy:**



CANLYNIAD 1: Yn derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau



CANLYNIAD 2: Yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel



CANLYNIAD 3: Yn byw mewn llety fforddiadwy, priodol, o safon dda sy'n gwella ansawdd eu bywydau



CANLYNIAD 4: Yn iach ac yn weithgar



CANLYNIAD 5: Yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus



CANLYNIAD 6: Yn gwerthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd



CANLYNIAD 7: Yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu



CANLYNIAD 8: Yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

Mae cyflawni'r 8 canlyniad hyn yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn fel Cyngor. Rydym wedi defnyddio hyn i lunio sail ein Hamcanion Lles Strategol, sydd wedi'u nodi yn y [Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022](#).

Fodd bynnag, ni allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgysylltu yn broses ddwy ffordd, gan gynnwys gwrandao ar lais ein dinasyddion, ein cymunedau, ein staff, ein haelodau etholedig a'n partneriaid wrth lunio penderfyniadau, gwasanaethau a pholisïau sy'n effeithio arnynt. Rydym am leoli dinasyddion wrth wraidd ein penderfyniadau a sicrhau bod pob rhan o'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan ar lefel ac mewn ffordd sy'n addas iddynt.

Gobeithio y byddwch chi i gyd eisiau chwarae rhan wrth weithio gyda'n gilydd i barhau i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda chymunedau ac yn helpu dinasyddion a chymunedau i gael mwy o lais yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r llefydd y maent yn byw ynddynt.

Edrychwn ymlaen at weithio ochr yn ochr â phobl a chymunedau Conwy i sicrhau ein bod yn cyflawni nodau'r strategaeth hon gyda'n gilydd.

Iwan Davies
Prif Weithredwr



Y Cyng. Charlie McCoubrey
Arweinydd y Cyngor



Ein nodau ac egwyddorion o ran cynnwys y gymuned

Mae'r amcanion o ran cynnwys y gymuned isod yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod Strategaeth Cynnwys y Gymuned yn darparu ymagwedd effeithiol a chydlynol tuag at gynnwys y gymuned er budd pob dinesydd a chymuned leol - er mwyn cefnogi cymunedau cryf, gweithgar a chynhwysol.

Ein hamcanion yw:

1. **cryfhau, datblygu a chynnal cyfleoedd** i bobl leol a grwpiau ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau fel rhan o sgwrs barhaus
2. cefnogi cyfleoedd i gymunedau **lunio a dylanwadu** ar ddatblygu a darparu gwasanaethau a pholisïau o safon sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol
3. **cydlynu** gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn well i sicrhau cysondeb, ansawdd a chyfranogiad partneriaid er mwyn osgoi dyblygu
4. annog cyfranogiad gan **bob rhan o'r gymuned**, yn enwedig pobl a grwpiau sy'n aml yn cael eu hepgor o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned
5. gwella'r **adborth** i'r cyfranogwyr am ganlyniadau ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned
6. hyrwyddo **amrywiaeth, hyblygrwydd a dewis** mewn gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned
7. datblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y gall dinasyddion a chymunedau lleol **ddewis** sut a phryd y maent am gymryd rhan
8. **gwrando a dysgu** o'n profiad ein hunain a phrofiad pobl eraill a rhannu sgiliau a gwybodaeth cynnwys y gymuned o roi'r dinesydd wrth wraidd ein penderfyniadau

Er mwyn cyflawni ein hamcanion cynnwys, byddwn yn ymdrechu i'w gwneud mor hawdd ag sy'n bosib i bobl Conwy leisio'u barn.

Ein hegwyddorion yw:

1. **Bod yn hygyrch ac yn gynhwysol** - mae gan bawb yn ein cymuned y dewis a'r cyfle i gymryd rhan.
2. **Bod yn glir ac yn broffesiynol** - sefydlu ymddiriedaeth, dibynadwyedd a hygrededd.
3. **Targeddu** - mae'r bobl gywir yn cael yr wybodaeth gywir i gymryd rhan.
4. **Bod yn agored, yn onest ac yn dryloyw** - gyda phwrrpas clir ac yn onest ynghylch unrhyw gyfyngiadau.
5. **Bod yn amserol ac yn berthnasol** - rhoi digon o amser a rhybudd i bobl gymryd rhan.
6. **Bod yn gynaliadwy** - sicrhau cydberthnasau parhaus sy'n fuddiol i'r ddwy ochr.
7. **Sicrhau ymagwedd ddwy ffordd** – byddwn yn cael sgwrs, gan wrando yn hytrach na dim ond siarad.

Rydym hefyd wedi ymuno â'r [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu](#) â'r Cyhoedd yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i'r [Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc](#) a ddatblygwyd gan Blant yng Nghymru.

Beth yw Cynnwys y Gymuned?

Gall cynnwys y gymuned olygu pethau gwahanol i wahanol bobl, a gallant gynnwys ystod o ymagweddau yn dibynnu ar yr hyn y mae pobl am ei gyflawni. Mae'r isod yn amlinellu'r gwahanol fathau o ddulliau y gallem eu defnyddio i gynnwys a sicrhau bod lleisiau ein pobl a'n cymunedau yn cael eu clywed.

Gwybodaeth

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i bobl a byddwn yn eu hysbysu am ddigwyddiadau, gwasanaethau, polisiâu a phenderfyniadau lleol a allai effeithio arnynt neu fod o ddiddordeb iddynt.

Byddwn yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy ein gwefan, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, newyddlenni, taflenni, grwpiau a fforymau.



Ymgynghori

Mae hwn yn ddigwyddiad neu weithgaredd mwy ffurfiol gyda dechrau a diwedd wedi'i ddiffinio'n glir lle'r ydym yn gofyn am farn y cyhoedd pan fydd angen gwneud penderfyniadau ar faterion pwysig a allai effeithio arnynt - megis newidiadau i wasanaethau, cynlluniau neu bolisiâu newydd. Yma mae gan bobl y cyfle i ddylanwadu a newid canlyniad penderfyniad.



Lefelau Cynnwys

Ymgysylltu

Byddwn yn darparu cyfleoedd yn barhaus i bobl a chymunedau gael sgwrs i rannu eu barn a'u syniadau. Rydym yn galw hyn yn Sgwrs y Sir. Rydym am ddysgu am brofiad byw pobl.



Datblygu Gyda'n Gilydd

Bydd gwasanaethau'r Cyngor a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud cyfraniad cyfartal tuag at lunio a chyflwyno gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau cymunedol.



Hefyd mae'n bwysig cydnabod bod yna wahanol fathau o gymunedau, a gellir diffinio'r cymunedau hyn gan y gwahanol ddibenion sy'n dod â phobl at ei gilydd (gwybodaeth bellach yn [atodiad 1](#)) -

1. **Diddordeb** - Cymunedau o bobl sy'n rhannu'r un diddordeb neu angerdd.
2. **Gweithredu** - Cymunedau o bobl sy'n ceisio dod â newid.
3. **Lle** - Cymunedau o bobl a ddygwyd ynghyd gan ffiniau daearyddol.
4. **Ymarfer** - Cymunedau o bobl sydd yn yr un proffesiwn neu'n ymgymryd â'r un gweithgareddau.
5. **Amgylchiadau** - Cymunedau o bobl a ddygwyd ynghyd gan ddigwyddiadau / sefyllfaoedd allanol.


Pam fod cymryd rhan yn bwysig?

Rydym am weithio'n agos gyda dinasyddion a chymunedau lleol i annog cynnwys y gymuned yn effeithiol. Mae'n bwysig i bobl gymryd rhan a rhannu eu profiadau bywyd er mwyn llunio a gwella eu hamgylchiadau unigol, a helpu darparu a gwella gwasanaethau yn eu cymuned.

Mae ymgysylltu yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae'r hinsawdd economaidd ac amgylcheddol bresennol yn golygu y bydd angen i ni wneud newidiadau o ran yr hyn y byddwn yn ei ddarparu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a sut y byddwn yn gwneud hynny. Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi cael llawer o effeithiau negyddol, ond mae hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau, gan gynnwys llawer mwy o ysbryd a gwytnwch cymunedol i wirfoddoli er mwyn helpu ein gilydd yn ystod cyfnodau anodd. Felly mae'n fwy hanfodol nag erioed ein bod yn gweithio gyda'n dinasyddion a'n cymunedau lleol i'n helpu i nodi blaenoriaethau lleol a datblygu atebion i'r heriau a wynebwn.



Mae **19%** o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau'r cyngor - rydym am wella hyn¹



o bobl yn y rhanbarth wedi'u heithrio'n ddigidol²



Rydym wedi cyflawni arbedion o **£65** miliwn ers 2013...



...ond mae angen i ni arbed tua **£28.224** miliwn erbyn 2023⁴

Bydd cynnydd o **35%** yn nifer y bobl 65+ oed erbyn 2039



Bydd gostyngiad o **2%** yn nifer y bobl dan 25 oed erbyn 2039³



Mae **1,850** o bobl rhwng 15 a 29 oed yn symud o'r ardal bob blwyddyn a dim ond **1,550** yn symud i mewn. Dros amser, disgwylir i'r bwlch hwn gynyddu a bydd yn effeithio ar strwythur oedran ein cymunedau⁵

1 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, Llywodraeth Cymru

2 Defnyddwyr y rhyngwyd, 2020 Swyddfa Ystadegau Gwladol

3 Rhagolygon Poblogaeth (rhagolygon yn seiliedig ar 2014), Llywodraeth Cymru

4 [Crynodeb Adroddiad Blynyddol 19/20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

5 Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn y Cofrestrwyd Cyffredinol, 2015




Pwy fyddwn ni'n ei gynnwys?

Byddwn yn cynnwys ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys -



**Partneriaid
Trydydd Sector**



**Defnyddwyr
gwasanaeth a
theuluoedd**



Preswylwy



Ymwelwyr



**Grwpiau
Cymunedol**



**Cynghorau Tref a
Chymuned**



**Cynrychiolwyr
Etholedig**



**Comisiynwyr
Cymru**



Busnesau



**Asiantaethau'r
Llywodraeth**



**Budd-ddeiliaid
eraill**

- Undebau Llafur
- Cyrff Proffesiynol



**Unigolion â
nodweddion a
ddiogelir**



**Partneriaid Sector
Cyhoeddus**



Sut all pobl gymryd rhan?

Mae yna lawer o ffyrdd y gall pobl gymryd rhan, megis -

Sgwrs y sir

Dyma un o'r ffyrdd i rannu syniadau er mwyn gwella gwasanaethau a'ch ardal leol

Gwefan Cyngor Conwy

Mae ein gwefan yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y Cyngor a sut y gallwch chi gymryd rhan

Grwpiau cymunedol

Mae llawer o grwpiau cymunedol yng Nghonwy, lle gall pobl sydd â diddordeb gymryd rhan. Ar gyfer grwpiau yn eich ardal, trowch at Dewis a thîm Lles Cymunedol Conwy

Cyswllt Dyddiol

Gyda Chynghorwyr a staff - er enghraifft gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, casglwyr sbwriel, athrawon, cynorthwyyr swyddfa docynnau ac ati ac ati

Rhwydwaith Cyfranogi

Cyfle i oedolion gymryd rhan a dweud eu dweud am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghonwy

Cyfarfodydd Pwyllgor

Mae ein holl gyfarfodydd pwyllgor (gan gynnwys craffu a chynllunio) ar agor i'r cyhoedd (heblaw am eitemau eithriedig)

Cyngor Ieuenctid a'r Ap

Cyfle i blant a phobl ifanc yr ardal gael lleisio'u barn a chael dewis mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Ymgynghori Ffurfiol

Mae gennym dudalen we 'Dweud eich Dweud' bwrpasol ar gyfer cael eich barn ar faterion penodol neu newidiadau i wasanaethau a chynlluniau

Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym bob amser yn ceisio defnyddio'r ffyrdd diweddaraf i roi gwybod i bobl am gyfleoedd i gymryd rhan – gallwch ddod o hyd i ni ar Facebook a Twitter

Adborth Cwsmeriaid

Dywedwch wrthym os ydym yn gwneud yn dda iawn neu os hoffech chi weld rhywbeth yn gwella

Bwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus

Rydym yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd

Sefydliadau Gwirfoddol a'r Trydydd Sector

Mae'r rhain yn ffordd dda i bobl gymryd rhan yn eu cymunedau lleol a darparu adborth mewn ffordd llai ffurfiol

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r cynghorau lleol hyn yn gwasanaethu eu cymunedau ac yn gweithredu i wella ansawdd bywyd yn eu hardal. Cymerwch ran a darganfod mwy am eich cyngor lleol

Ystyriaethau cydraddoldeb a hygyrchedd

Mae angen i'n hymgysylltiad adlewyrchu amrywiaeth ein cymuned. Byddwn yn chwilio am leisiau o grwpiau anodd eu cyrraedd ac yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle â phawb arall i gael lleisio'u barn a chael eu clywed. Mae angen i ni fod yn sensitif i wahanol ddiwylliannau, ieithoedd, ethnigrwydd, crefyddau, dewis o ragenw, cyfeiriadedd rhywiol, oed, statws economaidd-gymdeithasol, cefndiroedd (megis rhai sy'n byw mewn tldi), dulliau cyfathrebu ac anghenion mynediad.

Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried gofynion pobl â gofynion ychwanegol, ac yn ceisio lleihau'r rhwystrau i bobl â nam ar y synhwyrau (clyw a gweledol) a namau dysgu i gymryd rhan. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ystyried defnyddio print bras, fformat hawdd ei ddarllen, sain, fideos a braille.

I helpu gydag unrhyw ymgysylltiad digidol y gallem ymgymryd ag o, mae yna ganllawiau cymorth defnyddiol ac awgrymiadau ar AbilityNet, sy'n darparu arweiniad ar sut i:

- [newid maint y testun ar y sgrin](#)
- [chwyddo'r sgrin](#)
- [newid eich lliwiau](#)
- [gwneud eich llygoden yn haws ei defnyddio](#)
- [defnyddio eich bysellfwrdd i symud o amgylch y safle](#)
- [siarad â'ch dyfais](#)
- [gwneud i'ch dyfais siarad â chi](#)

Mae ein staff llyfrgell hefyd yn gallu hwyluso a helpu i gefnogi pobl i gael mynediad at dechnoleg. Mae rhagor o wybodaeth am ein llyfrgelloedd i'w gweld ar wefan Conwy – www.conwy.gov.uk/llyfrgelloedd

Bydd unrhyw adborth a gyhoeddir yn dilyn cynnwys y gymuned, yn cael ei ddarparu yn y fformat priodol fel y nodwyd yn ystod y gweithgaredd.

Diogelu Data

Byddwn yn cadw at [gyfreithiau diogelu data](#). Byddwn yn esbonio pam yr ydym eisiau gwybodaeth bersonol, ar gyfer yr hyn y byddwn yn ei ddefnyddio, a pha mor hir y byddwn yn ei gadw. Gallwch ddysgu mwy drwy ddarllen ein [hysbysiad preifatrwydd llawn](#) ar ein gwefan.

Sut fyddwn ni'n rhoi adborth am y gwahaniaeth a wnaed?

Ar ôl pob proses cynnwys y gymuned, byddwn yn rhoi crynodeb o'r adborth i'r dinasyddion a gymerodd ran, er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw beth wnaethom ni.

Mae canllaw staff hefyd wedi cael ei gynhyrchu, sy'n rhoi arweiniad i'n gweithwyr am sut i gynnwys ac ymgysylltu â'n cymunedau.

Sut i gysylltu gyda ni

Gallwch ymuno yn [Sgwrs y Sir](#) i rannu eich barn a'ch syniadau ynghylch y Sir neu eich ardal leol.



www.conwy.gov.uk/Sgwrs-Y-Sir

www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/

[@sgwrsconwyconvo](#)



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN



sgwrsysir@conwy.gov.uk



01492 574000

Gwasanaeth Cyfnewid Testun BT - Gall cwsmeriaid gyda nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif maent ei angen.



Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwyi gan ddefnyddio dehonglydd iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive!, a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/Cysylltwch-â-ni/Arwyddio



Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print mawr, copi sain a Braille.

Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol



Atodiad 1 – Mathau o Gymunedau

Math	Diffiniad	Enghreifftiau
Cymuned sy'n Gweithredu	Cymuned gyda'r nod o ddefnyddio pŵer cyfunol i wneud newid	- Cymunedau sy'n ceisio peidio defnyddio unrhyw blastig - Cymunedau sy'n cymryd ased cymunedol drosodd - Cymunedau sy'n gefeillio gyda threfi neu bentrefi tramor
Cymuned sy'n Ymarfer	Cymuned ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan yn yr un gweithgaredd	- Clybiau Chwaraeon (e.e. pêl-droed a rygbi) - Parkrun - Dosbarthiadau Ffitrwydd
Cymuned o Le	Cymuned i bobl sydd wedi eu huno gan ddaearyddiaeth	- Cynghorau Tref a Chymuned - Dyddiau Clirio Cymunedol - Cyfeillion Parciau
Cymuned â diddordeb	Cymuned i bobl sy'n rhannu'r un diddordeb cyffredin	- Sied Dynion - Rhandiroedd - Côr - Dramâu amatur - Clwb Blodau
Cymuned o Amgylchiadau	Cymuned i bobl sy'n cael eu huno gan sefyllfa neu her gyffredin nad ydynt yn gyfrifol amdani	- Fforwm Nam ar y Synhwyrâu - Cymuned LGBT - Grŵp Mynediad i'r Anabl